| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 4 |

LEFEL 2

# GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD
## Unedau 001/002 Jessica
## Set B

5952N1012B1
01

| Cwestiwn | Marc Uchaf | Marc yr Arholwr |
|---|---|---|
| 1. | 5 | |
| 2. | 4 | |
| 3. | 6 | |
| 4. | 2 | |
| 5. | 2 | |
| 6. | 3 | |
| 7. | 4 | |
| 8. | 4 | |
| Cyfanswm | 30 | |

| Sylwadau'r Aseswr: |
|---|
| Llofnod IQA:<br>Dyddiad: |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.
CJ*(W20-5952N10-12B1)

**Senario – Jessica**

Cylch Meithrin Dewi Sant - Meithrinfa i blant 2-3 oed

**Cyn y lleoliad**

Mae Jessica yn 16 oed ac yn astudio gofal plant yn y coleg. Bydd Jessica yn dechrau ei lleoliad gwaith yn yr wythnosau nesaf. Mae hi wedi bod yn ymweld â meithrinfa Cylch Meithrin Dewi Sant er mwyn dod i adnabod y staff, y plant a'u trefn arferol *(routines)*. Mae Jessica hefyd wedi cyfarfod â rheolwr y feithrinfa. Roedd Jessica yn awyddus i gael lle mewn lleoliad sy'n hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Ar ddechrau ei hymweliad cyntaf, mae Jessica'n cyfarfod â rheolwr y feithrinfa sy'n rhannu polisi myfyrwyr y lleoliad gyda hi, ac yn dweud beth sydd i'w ddisgwyl gan fyfyrwyr. Mae'r rheolwr yn pwysleisio pa mor bwysig yw cyfrinachedd ac yn rhannu'r polisi Rheoleiddio Diogelu Data Cyffredinol *(GDPR)* gyda Jessica. Mae'r rheolwr hefyd yn esbonio bod y lleoliad yn feithrinfa Gymraeg, a'i bod yn hanfodol felly bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ystod y drefn ddyddiol, mewn gweithgareddau ac wrth chwarae. Mae Jessica yn cael gwybod bod y ddarpariaeth Gymraeg yn y feithrinfa'n cynnwys storïau Cymraeg yn yr ardal ddarllen, arddangosfeydd Cymraeg o gwmpas yr ystafell a chaneuon Cymraeg sy'n cael eu chwarae a'u canu drwy gydol y dydd. Er mwyn cefnogi staff â'u sgiliau Cymraeg eu hunain, maen nhw'n cael hyfforddiant rheolaidd ac mae geiriau a brawddegau allweddol wedi'u harddangos o gwmpas y lleoliad. Er mwyn cefnogi cyfnod trosglwyddo *(transition)* Jessica wrth iddi ddechrau yn y feithrinfa, mae'r rheolwr wedi penodi mentor iddi o'r enw Julie.

Ar ddiwedd ei chyfarfod â'r rheolwr, mae Jessica yn mynd i mewn i'r feithrinfa. Mae Jessica yn sylwi ar unwaith bod y lleoliad yn teimlo'n gartrefol ac yn ddiogel. Yn yr ardal ddarllen, mae soffas mawr i'r plant eistedd arnyn nhw, mae ffotograffau o bob plentyn gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd wedi'u harddangos o gwmpas yr ystafell ac mae gan bob plentyn bâr o sliperi i'w gwisgo ar ôl cyrraedd y feithrinfa. Wrth ddod i mewn, mae pob plentyn yn cael ei groesawu a'i gyfarch gan oedolyn cyfarwydd sy'n gwenu. Mae Jessica yn sylwi ar arddangosfa fawr yn y fynedfa sy'n dangos ffotograffau o'r holl blant sy'n mynychu'r feithrinfa. Wrth ymyl pob ffotograff, mae swigod siarad *(speech bubbles)* sydd â gosodiad am bob plentyn a'r geiriau, "Ti'n Seren".

Pan mae Jessica'n ymweld â'r feithrinfa am yr ail dro, mae hi'n dysgu mai'r thema yn y feithrinfa yw 'lliwiau a lluniau'. Mae Julie yn esbonio bod llawer o weithgareddau dewis rhydd ar gael. Mae rhai o'r rhain yn cysylltu â'r thema, ond mae'r plant yn cael dewis pa weithgareddau maen nhw eisiau eu gwneud. Mae Julie yn paratoi'r gwahanol ardaloedd o gwmpas yr ystafell ac yn gofyn i Jessica ei helpu hi. Wrth iddyn nhw baratoi, mae Jessica yn gofyn i Julie am y cardiau A3 coch sydd i'w gweld o gwmpas yr ystafell ym mhob ardal. Mae Julie yn esbonio bod datblygu lleferydd ac iaith yn bwysig iawn i'r feithrinfa. Er mwyn annog hyn, mae geiriau a brawddegau allweddol ac iaith sy'n benodol i'r thema wedi'u harddangos ym mhob ardal o'r ystafell, er mwyn i'r staff eu defnyddio. Mae cwestiynau allweddol wedi'u harddangos hefyd er mwyn annog staff i gael sgyrsiau â'r plant. Mae'r arddangosfeydd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Jessica hefyd yn sylwi ar arddangosfa fawr yng nghanol yr ystafell. Mae llawer o luniau mawr ar y bwrdd arddangos sy'n amlinellu trefn ddyddiol y feithrinfa. Mae'n ddigon mawr fel bod modd ei weld o unrhyw le yn yr ystafell. Mae Julie yn trafod y bwrdd â Jessica, gan dynnu sylw at y drefn arferol sydd wedi'i gosod *(set routines)* ar gyfer amser chwarae dan do, amser chwarae yn yr awyr agored, amser gorffwys, amser byrbryd *(snack)* ac amser cinio.

Mae Julie yn esbonio bod ganddyn nhw hefyd rai gweithgareddau â ffocws sy'n cysylltu â'u thema. Yna mae Julie'n treulio amser gyda Jessica i drafod y plant sydd ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnyn nhw.

**Lleoliad**

Mae Jessica yn dechrau ei lleoliad heddiw. Mae Julie yn cyfarch Jessica â gwên ac yn gofyn iddi a yw hi'n edrych ymlaen at y diwrnod. Mae hi'n cyrraedd 20 munud cyn i'r plant gyrraedd er mwyn helpu i baratoi'r lleoliad. Mae Julie yn tacluso'r gornel gartref ac yn ychwanegu llestri te *(tea set)*. Nesaf, mae Julie yn ychwanegu dail yr hydref at y bwrdd darnau rhydd ac yna'n rhoi amrywiaeth o bosau *(puzzles)* ar y bwrdd. Yn olaf, mae Julie yn paratoi gweithgaredd creadigol.

Heddiw, mae Julie wedi gofyn i Jessica ei chefnogi hi wrth iddi arwain un o'r gweithgareddau â ffocws. Bydd y plant yn edrych yn y drych i beintio llun o'u hwyneb. Mae Julie yn esbonio y byddan nhw'n gweithio gyda phlant sydd â galluoedd amrywiol ac y bydd angen iddyn nhw addasu'r gefnogaeth maen nhw'n ei rhoi. Drwy gydol y bore, mae Julie'n cefnogi'r plant i wneud eu portreadau. Mae Julie yn awgrymu bod Jessica yn arsylwi ei gwaith hi gyda'r plant yn gyntaf. Yna, mae Jessica yn ceisio copïo ymarfer Julie.

Mae merch fach, Gwen, yn ymuno â Jessica wrth y bwrdd celf. Mae Jessica yn gofyn, "Alli di beintio llun o dy wyneb? Edrycha yn y drych ac yna galli di ei gopïo." Mae Gwen yn codi'r brwsh paent gwyrdd ac yn ei symud o gwmpas ei thudalen i gyd gan lenwi'r darn o bapur gwyn â phaent gwyrdd. Wrth arsylwi, mae Jessica yn sylweddoli nad yw Gwen wedi deall y cyfarwyddiadau. Mae Jessica yn rhoi cynnig arall arni. Y tro hwn, mae Jessica yn treulio rhai munudau gyda Gwen yn edrych yn y drych, gan enwi gwahanol nodweddion yr wyneb a'r lliwiau mae hi'n gallu eu gweld, gan ddefnyddio Cymraeg a Saesneg. Nesaf, mae Jessica yn dangos sut mae hi'n defnyddio'r drych i edrych ar ei hwyneb ei hun ac yna'n modelu sut i ddewis y lliwiau gwahanol sydd ar gael i beintio ei hwyneb ei hun. Yna mae Jessica'n rhoi cefnogaeth gam wrth gam i Gwen er mwyn iddi beintio ei hwyneb ei hun.

Mae bachgen bach, Louis, yn ymuno â'r gweithgaredd. Mae Jessica yn cofio bod gan Louis anghenion ychwanegol a bod angen cymorth ychwanegol arno i gefnogi ei ddatblygiad corfforol. Roedd Julie wedi esbonio ar ei hymweliad blaenorol bod Louis yn cael trafferth â'i reolaeth echddygol fanwl. Mae Jessica yn penderfynu cefnogi Louis drwy fodelu'r gweithgaredd un cam ar y tro a'i gefnogi i ddal y brwsh paent.

Ar ddiwedd y sesiwn, mae Julie a Jessica yn treulio rhywfaint o amser yn myfyrio *(reflecting)* ar y diwrnod. Mae Julie yn canmol dull gweithredu ymarferol *(hands-on)* Jessica a'i gallu i ddilyn cyfarwyddiadau ac i ddysgu o'i chamgymeriadau.

5952N1012B1
03

Arholwr yn unig

*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

## Cwestiynau Jessica: Set B

**1.** Mae'r feithrinfa'n cydnabod pwysigrwydd "perthyn" *(belonging)* i'r plant.

*(a)* Rhowch **ddwy** ffordd mae'r feithrinfa'n hybu "perthyn". [2]

(i) ..........

..........

(ii) ..........

..........

*(b)* Awgrymwch **dri** rheswm pam mae teimlo eu bod nhw'n perthyn yn bwysig i ddatblygiad plant. [3]

(i) ..........

..........

(ii) ..........

..........

(iii) ..........

..........

Arholwr yn unig

**2.** Nodwch **un** math o weithgaredd chwarae sy'n digwydd yn y feithrinfa.

Disgrifiwch beth yw manteision y gweithgaredd chwarae i ddatblygiad y plant.

| |
|---|
| **Math o weithgaredd chwarae:** .................................................. [1] |
| **Manteision y gweithgaredd chwarae:** [3]<br>..................................................<br>..................................................<br>..................................................<br>..................................................<br>..................................................<br>.................................................. |

5952N1012B1 05

**3.** Mae Cylch Meithrin Dewi Sant yn blaenoriaethu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y lleoliad.

*(a)* Nodwch **dair** ffordd mae datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael ei hybu yn y lleoliad. [3]

(i) ..................................................

..................................................

(ii) ..................................................

..................................................

(iii) ..................................................

..................................................



**Trowch y dudalen.**

Arholwr yn unig

*(b)* Esboniwch bwysigrwydd datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu er mwyn i blant ddysgu. [3]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**4.** Ar y bwrdd sy'n arddangos y drefn ddyddiol, mae Julie yn tynnu sylw at amser chwarae ac amser gorffwys.
Amlinellwch **ddwy** ffordd mae cydbwyso cyfnodau o weithgarwch corfforol gydag amser gorffwys ac amser tawel yn bwysig i iechyd plant. [2]

(i) ..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**5.** Mae Jessica yn datblygu'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol â'r plant.
Diffiniwch beth yw ystyr cyfathrebu effeithiol. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**6.** Mae sgiliau Cymraeg y staff eu hunain yn cael eu cefnogi ym meithrinfa Dewi Sant. Esboniwch pa mor bwysig yw hyn i gefnogi anghenion iaith plentyn. [3]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**7.** Trafodwch pa ffactorau sy'n sicrhau bod Jessica yn cael cyfnod trosglwyddo *(transition)* cadarnhaol wrth iddi ddechrau gweithio yn y feithrinfa. [4]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**8.** Disgrifiwch sut mae Jessica'n dod i ddeall anghenion ychwanegol plant yn y lleoliad. [4]

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................................

**DIWEDD Y PAPUR**

Arholwr yn unig

**Parhad yn unig.**

# TUDALEN WAG

# TUDALEN WAG